# Ffurflen ar gyfer cais am arolygiad ailsgorio

Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Atodlen 3

Nodiadau ar gyfer busnesau

- Fel gweithredwr busnes bwyd mae gennych hawl, o dan adran 12 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, i wneud cais ar unrhyw adeg am arolygiad at y diben o ailsgorio, ar yr amod eich bod wedi talu costau rhesymol yr ailsgorio yn unol ag adran 13 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 (oni fydd yr awdurdod bwyd wedi ymatal rhag gofyn am dalu‘r costau hynny ymlaen llaw – fel y darperir ar ei gyfer yn adran 12(6) o‘r Ddeddf, ac os felly, ceir talu‘r costau ar ôl cwblhau‘r arolygiad ailsgorio) ac os bodlonir hefyd yr amodau canlynol:
a) bod unrhyw apêl yn erbyn y sgôr hylendid bwyd bresennol wedi ei phenderfynu;
b) eich bod wedi hysbysu‘r awdurdod bwyd y gwnaed gwelliannau yn safonau hylendid y sefydliad;
c) bod yr awdurdod bwyd o‘r farn y byddai‘n rhesymol arolygu ac asesu‘r sefydliad ymhellach oherwydd y gwelliannau yr honnir eu bod wedi‘u gwneud;
d) bod y sticer sgôr hylendid bwyd cyfredol yn cael ei arddangos yn eich sefydliad yn unol â gofynion adran 7 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 a rheoliad 9 o Reoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013;
e) eich bod wedi cytuno i sicrhau y caniateir mynediad i‘r awdurdod bwyd i gynnal arolygiad o‘r sefydliad at y diben o ailsgorio.
- Bydd swyddog yr awdurdod lleol yn rhoi ichi sgôr hylendid bwyd 4newydd‘, ar sail y lefel o gydymffurfiaeth a ganfyddir ar adeg yr ail ymweliad – dylech fod yn ymwybodol y gall eich sgôr naill ai godi neu ostwng, neu aros fel y mae ar hyn o bryd.
- I wneud cais am ail ymweliad, defnyddiwch y ffurflen isod os gwelwch yn dda a dychwelwch y ffurflen at swyddog diogelwch bwyd eich awdurdod lleol – Gyngor Sir y Fflint, Adran Diogelwch Bwyd, Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NF.
- Gwneir yr ail ymweliad o fewn 3 mis ar ôl gwneud y cais, ac fel rheol ni roddir rhybudd ymlaen llaw.

| | |
|---|---|
| Y gweithredwr busnes bwyd | |
| Enw‘r busnes | |
| Cyfeiriadau busnes | |

| | |
|---|---|
| Rhif teleffon y busnes | |
| Cyfeiriad e-bost y busnes | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad | | Y sgôr hylendid bwyd a roddwyd | |

Enw‘r person cyswllt (os yw‘n wahanol i‘r gweithredwr busnes